**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid**
**Minister for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: SF/JH/0876/14

Jocelyn Davies AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Ebrill 2014

Annwyl Jocelyn,

**Y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gynnig Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 (Chwefror 20140**

Diolch am eich adroddiad craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

Amgaeaf nodyn yn Atodiad A, sy'n ymateb i'r argymhellion penodol a nodir yn adroddiad y Pwyllgor. Yn ôl ein harfer, byddaf hefyd yn rhoi adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar alldro terfynol 2013-14 maes o law.

Yn gywir

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

**Atodiad A**

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog ddarparu manylion ysgrifenedig am y trefniadau ar gyfer ad-dalu'r cyllid trafodion ariannol i'r Trysorlys ar ôl iddynt ddod i gytundeb. (Tudalen 13)

**Ymateb:** Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid pan ddaeth hi i'r Pwyllgor Cyllid ar 19 Chwefror y byddai hi'n hapus i roi manylion llawn i'r Pwyllgor am y trefniadau ar gyfer ad-dalu trafodion ariannol, unwaith y cyrhaeddir cytundeb gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi.

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ei bod yn costio dros £2 filiwn i Wasanaethau Cyhoeddus Northgate weinyddu'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwaith pellach yn cael ei wneud i fonitro ac adolygu sut y mae'r gronfa yn cael ei gweinyddu, a yw'r costau gweinyddu yn gymesur a pham mae'r niferoedd cychwynnol ar gyfer y cynllun wedi bod yn isel, o ystyried fod y cynllun yn cymryd lle cynllun a oedd eisoes yn bodoli. (Tudalen 16)

**Ymateb:** Roedd y Gweinidog Cyllid yn falch o gadarnhau wrth y Pwyllgor yn ei llythyr ar 5 Mawrth fod Llywodraeth Cymru, wrth ddyfarnu'r contract ar gyfer gweinyddu Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru, sef y cynllun sy'n cymryd lle'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol, wedi cyflawni arbedion sylweddol mewn costau ac wedi lleihau'r costau gweinyddol yn y flwyddyn ariannol hon i fymryn dros £1.3m.

O ran y niferoedd sy'n derbyn y taliadau grant, fel y trafodwyd yn y Pwyllgor ac fel y nodwyd yn y llythyr gan y Gweinidog Cyllid, roedd y tanwariant eleni o ganlyniad i'r niferoedd isel a fanteisiodd ar y grant ar y cychwyn. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn gynllun newydd ac er ei fod yn debyg i'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol flaenorol, mae'n gweithredu'n wahanol ac yn rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd partneriaid ledled Cymru, megis asiantaethau cynghori, codi ymwybyddiaeth o'r cynllun a helpu pobl wrth baratoi eu ceisiadau. Fe wnaeth datblygiad cychwynnol y rhwydwaith partneriaid gymryd amser, a effeithiodd ar y galw ond mae bellach dros 400 o bartneriaid i'r Gronfa, ac mae'n parhau i dyfu. Mae'r galw am y Gronfa bellach yn cyrraedd y lefelau a ddisgwylir ac nid ydym yn disgwyl tanwario mewn blynyddoedd i ddod.

Gan fod y Gronfa bellach yn dod i ben ei blwyddyn gyntaf, bydd gwerthusiad annibynnol yn cael ei wneud i edrych ar sut mae'n gweithredu. Bydd y gwerthusiad hwn yn dangos os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau neu welliannau i'r Gronfa.

**Argymhelliad 3:** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi nod y Gweinidog i wella'r cyswllt rhwng dyraniadau a chanlyniadau ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfle i gynnwys gwybodaeth am y mewnbwn o adnoddau yn ogystal ag allbynnau a chanlyniadau yn adroddiad blynyddol nesaf y Rhaglen Lywodraethu. (Tudalen 18)

**Ymateb:** Fel mae'r Pwyllgor wedi cydnabod, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi mwy o wybodaeth ar y cysylltiadau rhwng allbynnau a dyraniadau.

Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid yn y Pwyllgor Cyllid ar 19 Chwefror fod swyddogion yn gwneud gwaith pellach ar archwilio'r cysylltiadau rhwng cyllidebau a chanlyniadau, ac y bydd hyn yn cyfrannu at waith ar gyhoeddi adroddiad blynyddol eleni ar y Rhaglen Lywodraethu. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi sylw i hyn wrth baratoi ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2015-16 yn ogystal.

**Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dyraniad o'r gronfa *Buddsoddi i Arbed* a'r ad-daliadau iddi, ac mae'n fodlon ar hynny. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ymrwymo i gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n manylu ar yr arian sy'n cael ei drosglwyddo o'r gronfa *Buddsoddi i Arbed* a'i ad-dalu iddi. Dylai'r adroddiad nodi arbedion gwirioneddol ac arfaethedig prosiectau *Buddsoddi i Arbed.* (Tudalen 22)

**Ymateb:** Fel y nododd y Gweinidog Cyllid yn ei llythyr at y Pwyllgor Cyllid ar 5 Mawrth, mae gwybodaeth gyllidebol am y Gronfa eisoes wedi cael ei chyhoeddi. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys buddsoddiadau mewn prosiectau unigol a'r manteision sy'n gysylltiedig â hwy, ynghyd â manylion cyllidebol sy'n dangos tarddiad y cyllid, gan gynnwys ad-daliadau. Pan gyhoeddir Cyfrifon Llywodraeth Gyfan 2013-14 yr haf hwn, bydd gwybodaeth gyfatebol ar wariant hefyd yn dod ar gael.

Mae Adroddiad Blynyddol *Buddsoddi i Arbed* y Gweinidog ar hyn o bryd yn cynnwys manylion am fuddsoddiadau mewn prosiectau a'u harbedion rhagamcanol cysylltiedig, gyda manylion o arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd yn cael eu dangos mewn astudiaethau achos o brosiectau. Bydd manylion o arbedion a gyflawnir gan y prosiectau a gwblhawyd ac a gefnogwyd gan *Buddsoddi i Arbed* ar gael yn hwyrach eleni, pan gaiff canfyddiadau'r gwerthusiad diweddaraf o'r gronfa eu cyhoeddi.

Bydd y Gweinidog Cyllid yn ystyried y posibilrwydd o gynnwys gwybodaeth ariannol bellach yn adroddiad blynyddol nesaf *Buddsoddi i Arbed*, y bwriedir ei gyhoeddi yn yr hydref.